



**CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD CYLLIDEB LLAWN
NOS IAU 14^{eg} IONAWR 2010 AM 7.30PM
FESTRI CAPEL SHILOH LLANBEDR PONT STEFFAN**

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd sef y Cyng. Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod. Eglurodd mai pwrpas y cyfarfod oedd pennu maint y presept (y dreth leol a godir gan Gyngor y Dref) am y flwyddyn ariannol Ebrill 2010-Mawrth 2011.

YN BRESENNOL

Maer S.Walters; Dirprwy-Faer R. Phillips,
Cynghorwyr Tref: C. Barton, E.Dafis, H.Harris, K. Ramaya,
C.Thomas, D.Wilson.

2. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheurodd y Cyng. A.Carter, J. Davies, M. Davies-Evans, G.Evans,
L. Mason-George a D.Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim.

4. Y PRESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL

Trafodwyd yr Adroddiad Gyllideb (ynghlwm). Gan fod y cynghorwyr yn teimlo y gellid cwrdd â'r holl alwadau o fewn terfynau'r gyllideb a oedd wedi ei pharatoi penderfynwyd cadw'r presept heb ei newid am y 6ed flwyddyn yn olynol sef £43,220 neu £48.48 y flwyddyn sef 93 ceiniog yr wythnos i drethdalwr band D.

Mae'r ffaith nad oes cynnydd wedi bod yn y presept am flynyddoedd, yn adlewyrchiad o'r ffordd effeithiol y mae aelodau wedi gofalu am arian y cyhoedd.

Mae'r gostyngiad yn nhaliadau Camerau Teledu Cylch Cyfyng (CTCC) wedi bod yn allweddol hefyd i alluogi'r Cyngor Tref i fod yn stiwardiaid effeithiol o'u harian.

Ystyriwyd maint y swm cyfalaf oedd wrth gefn (£152,000 @ 31.03.2010 gan gynnwys y rhodd mewn ewyllys oddeutu £11,500) ac adroddwyd y gallai'r Cyngor Tref wynebu herion ariannol yn ystod y dyfodol gan fod Prydain yn debygol o ddioddef o ostyngiadau mewn gwario ar gyfer y cyhoedd, ac oherwydd y ddirwasgiad. Yn ogystal, gallai'r Cyngor Sir ddileu gwasanaethau arbennig. Byddai'r arian wrth gefn yn cynnig cyfle i'r Cyngor Tref i ymgymryd â prosiectau ee llogi'r Cae Maesyderi ac i dalu am gostau cyfalaf.

PENDERFYNWYD

1. Byddai swm o £1,500 yn cael ei glustnodi ar gyfer prosiect Cae'r Maesyderi heb orfod gofyn caniatâd y pwyllgor llawn. Byddai angen caniatâd ar gyfer gwariant cyfalaf uchel.
2. Byddai lwfans y Maer yn codi bob blwyddyn yn unol â chwyddiant.
3. Byddai'r Clerc yn derbyn codiad yn ei chyflog bob blwyddyn gan godi un cam yn y gris.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.50pm.

- 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 28^{ain} Ionawr 2010 at 7.30pm, Neuadd yr Eglwys San Pedr.**

**(Arwyddwyd
Cadeirydd/Dyddiad)** _____